Pwyllgor Cyllid

# Gorchymyn Deddf Enillion Troseddau 2002 (Cyfeiriadau at Ymchwilwyr Ariannol Awdurdod Cyllid Cymru) 2018

Mae'r Offeryn Statudol hwn yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cyllid o dan Reol Sefydlog 27.8A.

## Cefndir a Diben

1. Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu bod cyfeiriadau at ymchwilwyr ariannol achrededig yn Neddf Enillion Troseddau 2002 ("y Ddeddf") i'w darllen fel cyfeiriadau at ymchwilwyr ariannol achrededig sy'n aelodau o staff Awdurdod Cyllid Cymru.

2. Caiff ymchwilwyr ariannol achrededig wneud cais am orchmynion atal o dan Ran 2 o'r Ddeddf a chânt ymafael mewn eiddo y mae unrhyw orchymyn o'r fath yn gymwys iddo. Caiff ymchwilwyr ariannol achrededig hefyd chwilio am arian parod, ymafael ynddo, ei gadw a gwneud cais i'w fforffedu. Cyn arfer pwerau chwilio, rhaid iddynt gael cymeradwyaeth ymlaen llaw oddi wrth naill ai ynad heddwch neu uwch-swyddog (oni bai ei bod yn anymarferol gwneud hynny o dan yr amgylchiadau).

3. Caiff ymchwilwyr ariannol achrededig hefyd wneud cais am orchmynion a gwarantau mewn perthynas ag ymchwiliadau atafaelu, gwyngalchu arian ac arian parod. Gall dibenion gorchmynion o'r fath gynnwys, e.e. ei gwneud yn ofynnol i berson gyflwyno deunyddiau penodol, i ganiatáu chwiliad o fangre benodedig ac ymafael mewn deunyddiau ynddi a'i gwneud yn ofynnol i sefydliad ariannol ddarparu gwybodaeth cwsmeriaid. Ymchwilydd ariannol achrededig yn unig, sydd (gan ddibynnu ar natur y gorchymyn neu'r warant) naill ai'n berson priodol, yn swyddog priodol neu'n uwch-swyddog priodol, gaiff wneud cais am y pwerau o dan orchmynion neu warantau o'r fath a/neu eu harfer.

## Y weithdrefn

4. Negyddol.

## Craffu ar y rhinweddau

5. Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno mewn perthynas â'r offeryn hwn.

6. Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi pwerau sylweddol i Awdurdod Cyllid Cymru. Rhoddwyd esboniad nad yw'n ymddangos yn afresymol. Er hynny, tynnir sylw at y Gorchymyn ar y sail ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad. [Rheol Sefydlog 21.3(ii)]

## Amcanion polisi

### Datganiad ar y bwriad polisi

7. Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i graffu ar y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru), rhoddodd Llywodraeth Cymru wybodaeth am y **bwriad polisi** o ran y pwerau dirprwyedig yn y Bil.

8. Mae'r rheoliadau a gyflwynwyd **yn cyd-fynd â** pholisïau cysylltiedig yn y datganiad.

9. Nododd y byddai Adran 184(4) o'r Bil Casglu a Rheoli Trethi (**Adran 186(4) o'r Ddeddf**) "yn cyflwyno pŵer gwneud Gorchymyn newydd fel rhan o POCA fel y gall Gweinidogion Cymru bennu pa staff yn ACC sy'n gallu cyflawni swyddogaethau penodol o dan POCA, a fydd yn galluogi ACC i adennill enillion ymddygiad troseddol sy'n gysylltiedig â threthi datganoledig."

### Gwaith craffu Cyfnod 1 gan y Pwyllgor Cyllid

10. **Ni wnaed unrhyw sylwadau**.

### Ymatebion i'r ymgynghoriad

*Ymgynghoriad y Cynulliad*

11. **Ni wnaed unrhyw sylwadau**.

*Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru*

12. **Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn awgrymu,** er ei bod yn bwysig i Awdurdod Cyllid Cymru gael y pwerau a gynigir, dylai aros mor agos â phosibl at bwerau Tollau a Chyllid EM. Y rheswm mynych am y farn hon oedd er mwyn osgoi dryswch.

### Rheoliadau yn yr Alban

13. Ym **Mhennod 3 o Ddeddf Enillion Troseddau 2002** a'r **Ddeddf Enillion Troseddau (Yr Alban) 1995**, nid oes cyfeiriad at ymchwilydd ariannol achrededig. Yn hytrach,

rhoddir y pwerau cyfatebol a gynigir gan Lywodraeth Cymru i'r procuradydd ffiscal ar gyfer ymchwiliad atafaelu neu wyngalchu arian a Gweinidogion yr Alban ar gyfer ymchwiliad adferiad sifil neu gadw arian parod.

**Rheoliadau'r DU**

14. Mae rheoliadau Llywodraeth Cymru yn gyson â deddfwriaeth yn y **Ddeddf Enillion Troseddau 2002**. Mae'r pwerau a gynigir gan Lywodraeth Cymru yn gyfwerth â'r rhai a roddwyd i Gyllid a Thollau EM gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

## Ymateb y Llywodraeth

15. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r adroddiad ac yn cydnabod bod yr OS hwn yn cynnwys materion sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

## Safbwynt y Pwyllgor

16. Nododd y Pwyllgor y Gorchymyn.